

**Datganiadau Ariannol**  
**Blwyddyn yn gorffen**  
**31 Mawrth 2016**



## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### DATGANIADAU ARIANNOL BLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Aelodau Bwrdd a Chynghorwyr Proffesiynol	1
Adroddiad y Bwrdd gan gynnwys yr Adroddiad Strategol	2 - 13
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	14 - 15
Datganiad Incwm Cynhwysfawr	16
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd	17
Datganiad Sefyllfa Ariannol	18
Datganiad Llif Arian	19 - 20
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	21 - 41

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### AELODAU'R BWRDD A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

#### AELODAU'R BWRDD

Claire Russell Griffiths (Cadeirydd; Ymddiswyddo Mawrth 2016)

Medwyn Hughes (Is-gadeirydd; Cadeirydd ers Ebrill 2016)

Margaret Bracegirdle

Anne Lloyd-Jones

Michael Sol Owen

Stephen Churchman

John Wyn Williams

Nerys Williams

David Halsall

Anne Foote

Mark Jones (Penodi Hydref 2015; Is-gadeirydd o Ebrill 2016)

Abigail Tweed (Penodi Mai 2015)

#### Ysgrifennydd a Swyddfa Gofrestredig

Rhys Evans

Uned 6 a 7

Llys Castan, Parc Menai,

Bangor, Gwynedd

LL57 4FH

#### Swyddogion Gweithredol

Ffrancon Williams, Prif Weithredwr

Paul McGrady – Cyfarwyddwr Adnoddau (Cychwyn Mehefin 2015)

Ian Atkinson – Cyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd (Cychwyn Mehefin 2015)

#### Archwilwyr Allanol

Beever and Struthers

St George's House,

215-219 Chester Road,

Manchester

M15 4JE

#### Cyfreithwyr

Trowers & Hamlins

Sceptre Court,

40 Tower Hill,

LONDON

EC3N 4DX

#### Bancwyr

Barclays Bank plc

3rd Floor,

Windsor Court,

3 Windsor Place,

Cardiff

CF10 3ZL

#### Arianwyr

Barclays Bank plc

3rd Floor,

Windsor Court,

3 Windsor Place,

Cardiff

CF10 3ZL

#### Cynghorwyr Ariannol

Capita Asset Services

65 Gresham Street,

London

EC2V 7NQ

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig yn Gymdeithas Cydweithredol a Budd Cymunedol wedi ei gofrestru gyda rheolau elusennol, Rhif Cymdeithas Cydweithredol a Budd Cymunedol:30776R. Rhif Landlord Cymdeithasol Cofrestredig L152.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### **Adroddiad Strategol Blwyddyn 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016**

Mae Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn cyflwyno'r adroddiad hwn a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

Yn yr adroddiad a'r Datganiadau Ariannol mae 'CCG' neu 'Sefydliad' wedi ei ddefnyddio i gyfeirio at Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf.

Yn unol â gofynion y Cyngor Adrodd Ariannol, mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â Safon Adrodd Ariannol newydd (Financial Reporting Standard - FRS) 102. Caiff effaith mabwysiadu'r FRS 102 newydd ei egluro yn y Datganiadau Ariannol eu hunain (e.e. Nodyn 23) ond yn gryno, mae'r newidiadau yn cynnwys ffordd newydd o gyflwyno'r prif gyfrifon (e.e. mae'r Fantolen bellach yn Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol), dangos grantiau cyfalaf fel credydwr yn hytrach na lleihad yn yr asedau sefydlog, cydnabod croniadau tâl gwyliau a chydabod gwerthoedd gros y goblygiad trosglwyddo stoc weddilliol.

#### **Prif Weithgareddau**

Cymdeithas Dai Trosglwyddiad Stoc ar Raddfa Fawr yw CCG wedi ei ffurfio yn Ebrill 2010 yn dilyn trosglwyddo tua 6,300 o gartrefi o Cyngor Gwynedd. Mae CCG yn Gymdeithas Gydwethredol a Budd Cymunedol wedi ei chofrestru gyda rheolau elusennol. Mae CCG yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a chaiff ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru.

Prif bwrpas CCG yw darparu tai rhent fforddiadwy yng Ngwynedd i'r rhai sydd angen tai.

Ar y 31 Mawrth 2016 roedd gan CCG 6,241 eiddo ar draws Gwynedd gyda'r mwyafrif o'r rhain wedi eu lleoli yn ardal Arfon.

Er bod rhan helaeth o stoc CCG wedi ei leoli yn bennaf yn ninas Bangor a threfi mawr fel Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Bala a Thywyn mae nifer o'r eiddo wedi eu lledaenu ar draws y Sir mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig.

O fewn y stoc mae yna tua 400 o gartrefi wedi eu dynodi fel Tai Gwarchod ar gyfer tenantiaid hŷn ac ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn eiddo o'r fath, cyflogir wardeiniaid i sicrhau y gall tenantiaid fwynhau bod yn annibynnol.

Yn ystod y chweched flwyddyn o weithredu mae CCG wedi llwyddo i gyflawni un o'r addewidion craidd a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig sef adnewyddu cartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - bu i ni lwyddo i wneud hyn yn ystod hydref 2015.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### Amcanion a strategaethau

Yn gynnar yn 2015 bu i'r Bwrdd fachu ar y cyfle i adlewyrchu ac edrych i'r dyfodol, a mabwysiadwyd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2015 i 2020. Mae'r cynllun yn manylu'r cyfnod nesaf yn natblygiad CCG ac mae'n adolygu Gweledigaeth a Gwerthoedd y sefydliad.

Y Weledigaeth newydd yw;

### **Bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau.**

Caiff y weledigaeth ei hatgyfnerthu gan nifer o werthoedd craidd:

- **Teg** - Gwneud penderfyniadau cyson a gwrthrychol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu amrywiaeth
- **Atebol** - bod yn effeithiol a chymryd cyfrifoldeb am ein penderfyniadau a'r pethau rydym yn eu gwneud.
- **Agored** - Bod yn onest a thryloyw yn bob dim 'rydym yn ei wneud
- **Arloesol** - Bod yn uchelgeisiol ac yn agored i syniadau a ffyrdd newydd o weithio
- **Cyfeillgar** - Bod yn hygyrch ac yn hawdd gweithio efo ni bob amser

Mae Cynllun Corfforaethol 2015/20 yn nodi strategaeth CCG ar gyfer y blynyddoedd i ddod gan ganolbwyntio ar:

- y blaenoriaethau sydd i'w cyflawni gan y Bwrdd a staff,
- beth ydym yn buddsoddi ein hamser ac adnoddau yn ei ddarparu, a'r
- fframwaith sy'n llywodraethu ein penderfyniadau a monitro ein cynnydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys set o bedwar thema allweddol a phedwar amcan;

- **Cwsmeriaid** - Ein bwriad yw cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid gan eu hannog i gymryd rhan mewn siapiau sut mae gwasanaethau yn cael eu dylunio a'u darparu
- **Datblygiad a Thwf** – Tyfu fel busnes i sicrhau hyfywedd hir dymor
- **Asedau** - Rheoli ein hasedau i gynnal eu gwerth ac uchafu incwm a sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid
- **Cymunedau cynaliadwy** – Hybu Cymunedau Cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol

Caiff y themâu a nodau hyn eu cefnogi gan 14 amcan manwl gyda'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cael ei gefnogi gan 6 egwyddor wedi eu dylunio i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni;

- **Cyllid a Llywodraethu**
- **Pobl a Thechnoleg**

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

- **Cyfathrebu**
- **Partneriaeth**
- **Gwerth am arian**
- **Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA)**

Caiff cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun ei fonitro drwy Fframwaith Rheoli Perfformiad adolygedig.

### **Adolygiad Ariannol**

#### **Asesiad Hyfywedd Ariannol**

O dan adran 33A Deddf Tai 1996, mae gan Weinidogion Cymru rym i reoleiddio LCC yng Nghymru o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae asesiadau rheolaethol a wneir yn dilyn dull o ganolbwyntio ar risg sy'n gwneud dyfarniad ar hyfywedd ariannol y Gymdeithas. Mae'r dyfarniadau yn disgyn i un o'r categorïau canlynol: 'Pasio', 'Pasio gyda monitro rheolaethol agosach' neu 'Methu'.

Yn dilyn adolygiad Gweinidogion Cymru bu iddynt ddod i'r casgliad ym mis Mai 2016 mai Dyfarniad Hyfywedd Ariannol CCG oedd 'Pasio', sef y dyfarniad uchaf o'r tri sydd ar gael, a chaiff ei ddiffinio fel:

*"Mae gan y Sefydliad adnoddau digonol i gwrdd â'i ymrwymïadau ariannol busnes sydd wedi ei ragdybio nawr ac yn y dyfodol.*

Eglurwyd dyfarniad y Rheoleiddiwr fel â ganlyn;

- *Mae CCG wedi paratoi rhagamcanion ariannol 30 mlynedd yn rhagdybio set resymol o dybiaethau.*
- *Mae gan CCG ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.*
- *Mae rhagamcan 30 mlynedd CCG yn dangos y dylai barhau i weithredu o fewn cyfamodau'r benthyciwr o dan amgylchiadau rhagweladwy rhesymol.*
- *Mae CCG wedi adrodd eu llwyddiant yn sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2015 ac mae wedi defnyddio gwybodaeth arolwg cyflwr stoc i greu costau sydd wedi eu cynnwys yn ei ragamcan 30 mlynedd er mwyn parhau i gwrdd â'r safon yma.*

#### **Perfformiad Ariannol**

Mae canlyniadau ariannol y chweched flwyddyn yn cymharu'n dda gyda chweched flwyddyn ein cynllun busnes gydag arian dros ben o weithgareddau cyffredin ar gyfer y flwyddyn yn £4.9m. Daw'r gweddill hwn ar ôl derbyn arian Dowry o £4.1m gan LIC.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Roedd gan CCG asedau sefydlog pendant o £116.0m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf cost y gwaith gwella cyfalaf sydd wedi ei wneud ers trosglwyddo. Roedd yna atebolrwydd presennol net o £13.8m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd £14.0m o fenthyciadau banc sy'n ad-daladwy yn ystod 2016/17, gwariant wedi cronni, ac atebolrwydd ar gynllun pensiwn y llywodraeth leol o £1.2m. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn oedd £42.5m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf y gwaith gwella cyfalaf a gyfeirir ato uchod, llai ariannu tymor hir y gwaith hwnnw a llai yr atebolrwydd pensiwn.

Roedd balans benthyciadau i'w talu yn £69.85m ar ddiwedd y flwyddyn a chawsant eu tynnu i lawr o dan drefniant o £82.0m gyda Banc Barclays. Balans y benthyciadau oedd:

- £55.0m mewn saith benthyciad cyfradd sefydlog gan Barclays - ad-daladwy ym mis Hydref 2018 (£6m), Hydref 2021 (£5m), Hydref 2022 (£4m), Ebrill 2031 (£5m), Ebrill 2032 (£8m), Ebrill 2033 (£12m) ac Ebrill 2034 (£15m)
- £14.0m o fenthyciadau cyfraddau amrywiol gan Barclays - ad-daladwy yn ystod 2016/17.
- Benthyciad cyfradd amrywiol o £0.85m gan Lywodraeth Cymru - ad-daladwy yn 2020/21.

### Asedau

Fel sydd wedi ei nodi uchod, yn ystod y flwyddyn bu i CCG gwblhau'r rhaglen wella SATC fel y manylwyd yn y Ddogfen Gynnig. Gwariwyd £119.7m yn y 5 mlynedd flaenorol gyda £9.1m pellach wedi ei fuddsoddi yn 2015/16. Hefyd, adeiladwyd 3 cynllun tai newydd yn ystod y flwyddyn gyda £1.7m wedi ei wario yn 2015/16.

### Rhenti

Yn ystod 2015/16 bu i CCG barhau i ddilyn polisi Llywodraeth Cymru ar Rent Tai Cymdeithasol a gyflwynwyd yn 2014/15. Mae'r polisi yn pennu band rhent cyfartalog ar gyfer y Gymdeithas lle mae'n rhaid i wir rent cyfartalog ddisgyn o'i fewn. Mae cynyddiadau chwyddiant yn seiliedig ar Indecs Prisiau Defnyddwyr a 1.5% ond gall y Gymdeithas gynyddu rhent o £2 yr wythnos ar gyfer rhan y stoc neu'r stoc gyfan os caiff hyn ei weld yn ofynol er mwyn ariannu ymrwymadau y cynllun busnes. Yn 2015/16 bu i wir rent cyfartalog godi o 4.42%. £25.77m oedd cyfanswm y rhent a godwyd yn ystod y flwyddyn.

### Hawl i Brynu/Caffael

Roedd y Ddogfen Gynnig yn nodi bod tenantiaid a oedd wedi trosglwyddo i CCG o Cyngor Gwynedd wedi 'cadw'r hawl i brynu' eu cartrefi. Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd 15 gwerthiant fel hyn a gwerthwyd 4 arall ar y farchnad agored. Mae elw'r gwerthiannau wedi eu cynnwys yn natganiad incwm cynhwysfawr 2015/16.



## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Nid oes gan y rhai sydd wedi dod yn denantiaid ers trosglwyddo yr un hawl i brynu ag sydd gan denantiaid sydd wedi trosglwyddo ond efallai y byddai ganddynt yr hawl i brynu eu cartref o dan y broses 'hawl i gaffael' sy'n seiliedig ar grant yn hytrach na gostyngiad. Hyd yn hyn, nid yw CCG wedi gwerthu unrhyw dŷ o dan yr hawl i gaffael.

### **Adolygiad Weithredol**

Bu i CCG ddathlu ei ben-blwydd yn 6 mlwydd oed yn fuan wedi diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 - blwyddyn lle gwelwyd cynnydd mawr gyda Chynllun Corfforaethol 2015-2020 a fabwysiadwyd yn fuan yn 2015.

### **Llwyddiannau allweddol a blaenoriaethau gweithredol 2015/16**

Roedd blaenoriaethau gweithredol a phrif lwyddiannau y flwyddyn yn cynnwys:

- Cynnydd pellach gyda Strategaeth Ddatblygu cyntaf CCG; mae'r strategaeth yn amlinellu'r dull o symud ymlaen gyda raglen dwf wedi ei reoli yn ofalus, gyda'r bwriad o ddatblygu 225 o gartrefi newydd erbyn 2020 er mwyn ehangu'r dewis sydd at gael i gwrdd ag anghenion y gymuned. Caiff y Strategaeth ei gefnogi gan fframwaith clir ar gyfer rheoli risg a phroses gadarn ar gyfer cynllunio busnes a gallu ariannol.
- Cwblhawyd yr 18 cartref newydd cyntaf o dan y Strategaeth Ddatblygu (dau safle ym Mangor ac un ym Mhwlheli) yn 2015/16 ac mae gwaith wedi cychwyn ar ddau safle arall ym Mangor a Dolgellau a fydd yn darparu 21 uned arall. Mae'r cynlluniau wedi eu hariannu yn rhannol gan grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhaglen eiddo llai. Mae'r cartrefi yn cyrraedd lefel effeithiolrwydd tri Cod Cartrefi Cynaliadwy ac yn cwrdd a safonau Diogel Drwy Ddyluniad. Mae nifer o gynlluniau eraill yn cael eu cynllunio gan gynnwys prynu safle yng Nghaernarfon lle gellir adeiladu 45 o unedau arno.
- Cwblhawyd gwaith ar adnewyddu pedwar cynllun tai gwarchod ac mae'r fflatiau hyn ynghyd â'r 18 cartref newydd wedi eu gosod i rai sydd angen tai cymdeithasol fforddiadwy - cafodd rhai o'r rhain eu gosod i denantiaid a oedd eisiau symud i eiddo llai oherwydd newidiadau i ddiwygio lles.
- Llwyddwyd i orffen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ym mis Medi 2015 ac mae'r sefydliad yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal y safon (e.e. drwy'r polisi Cydymffurfiaeth SATC a gymeradwywyd gan y Bwrdd), ac ar sicrhau bod y buddsoddi yn parhau.
- Gwaith arall a oedd yn ymwneud ag Asedau oedd cynyddu cywirdeb data reoli asedau, caffael fframwaith o gontractwyr i gyflawni gwaith buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol fel gwaith allanol, cyfathrebu gwell

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

rhwng y timau asedau a thrwsio, a defnyddio'r tîm trwsio mewnol i gyflawni gwaith cyfalaf fel adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi.

- Sefydlwyd Rhaglen Wella Tîm Trwsio yn ystod y flwyddyn - roedd hyn yn adeiladu ar adroddiadau annibynnol blaenorol o'r gwasanaeth, a'i amcan yw symud gwelliannau blaenorol yn eu blaen a sicrhau bod gan y gymdeithas y gyfundrefn trwsio fwyaf priodol.
- Mae'r awydd i wella boddhad y cwsmer a pherfformiad trwsio ymatebol yn parhau, gan ganolbwyntio ar sicrhau gwell gwasanaeth a meithrin diwylliant o wella. Mae arolwg boddhad tenantiaid STAR yn draddodiadol wedi bod yn adrodd boddhad o tua 62% yn flynyddol ond bu i hyn gynyddu i 67% yn 2015/16, ac mae holiaduron boddhad cwsmer misol a gynhelir yn fewnol yn dangos cynnydd pellach. Cwblhawyd nifer fawr o gardiau gwaith trwsio yn ystod y flwyddyn ac er gwaethaf cynnydd blynyddol o tua 2,000 o gardiau gwaith, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau nad oes tagfeydd yn y gwaith.
- Mae gwaith yn parhau i leddfu effaith Diwygio Lles drwy gefnogi tenantiaethau i gynnal eu cynaladwyedd. Mae ein dull rhagweithiol o weithio wedi ein galluogi i ymdrin â'n hachosion Credyd Cynhwysol cyntaf gan gadw ôl-ddyledion rhent i 1.8% - gan drechu ein targed o 2%. Adolygwyd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a bellach mae'r pwyslais ar gynyddu gallu ariannol ein tenantiaid fel y gallent ymdrin â digwyddiadau ariannol annisgwyl a all gyfyngu eu gallu i dalu rhent.
- Mae CCG wedi parhau i ddatblygu partneriaethau ac wedi gweithio gyda'r Heddlu ar ddull Ymyrryd Cynnar sydd o gymorth i greu cymunedau diogel. Mae CCG yn aelod o weithgor Taclo Tlodi Gwynedd a phrosiect Gwynedd Ddigidol wedi ei ariannu gan Gronfa'r Loteri sy'n annog ein tenantiaid i ddefnyddio'r rhynggrwyd i gael gwybodaeth, ennill sgiliau i'r gweithle a chynyddu eu cynhwysiant cymdeithasol.
- Bu i'r gymdeithas barhau i sicrhau ei fod yn cwrdd â safonau gofynnol yr achrediad OHSAS 18001 ar gyfer lechyd a Diogelwch ac ISO 9001 a 14001 ar gyfer Systemau Ansawdd Amgylcheddol.
- Mae cadw tenantiaid y gymdeithas wrth galon gwaith CCG a gwella gofal cwsmer yn parhau i fod yn flaenoriaeth a sefydlwyd fframwaith gyfranogi tenantiaid newydd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, fel sydd wedi ei nodi uchod, roedd canlyniadau'r pumed Arolwg Boddhad Tenantiaid yn dangos parhad yn y cynnydd mewn rhai meysydd allweddol gan hefyd amlygu rhai meysydd sydd angen eu gwella. Eto, roedd y canlyniadau yn llunio rhan allweddol o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd ar gyfer yr ymarferiad Hunan Asesiad blynyddol sy'n cael ei rannu gyda'r Rheoleiddiwr.
- Bu i CCG unwaith eto dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am ei waith caffael gan gyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Caffael

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Cenedlaethol Cymru mewn dau gategori sef Cyd-weithio ac Arloesi mewn Caffael. Mae'r gwobrau yn rhan o Wythnos Gaffael Cymru gan Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor a chant eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r bedwaredd flwyddyn o'r bron y mae CCG wedi cyrraedd rhestr fer y cystadlaethau yma ar ôl ennill Gwobr Cyfraniad Arbennig a'r wobwr Budd Cymunedol yn y gorffennol am waith sicrhau bod cymunedau ar draws Gwynedd yn cael budd o fuddsoddiad SATC.

- Bu i Gronfa Budd Cymunedol CCG cefnogi 52 sefydliad cymunedol i ddatblygu gwahanol brosiectau ar draws ardal Gwynedd - cyfanswm y grant a rannwyd oedd £255mil sydd wedi bod o gymorth i sefydliadau ddenu buddsoddiad pellach o £937mil mewn ariannu cyfatebol ar gyfer prosiectau cymunedol.
- Mae CCG yn cynnal prosiect trawsnewid busnes ar hyn o bryd gyda'r bwriad o wella'r ffordd mae'r sefydliad yn gweithio - gwell cyfathrebu, swyddfeydd mwy addas, prosesau busnes arloesol ayb. Fel rhan o'r agenda effeithiolrwydd roedd yna hefyd adolygiad manwl o linellau cyllideb unigol - bydd hyn yn parhau a bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn cael ei ddatblygu ymhellach.
- Roedd yna sylw penodol i Werth am Arian a'r Strategaeth Gaffael yn ystod y flwyddyn (bu i'r olaf er enghraifft olygu creu fframwaith newydd ar gyfer deunyddiau) a bu i'r gymdeithas barhau i gynyddu'r gyfres o bolisïau a gweithdrefnau strategol a gweithredol e.e. adolygwyd y Rheolau Gweithdrefn Cytundeb yn ystod y flwyddyn.

Mae'r prif lwyddiannau hyn yn cyd fynd â Datblygiadau'r Dyfodol o fewn adroddiad y Bwrdd ar gyfer 2015/16.

Yn ystod y flwyddyn o'n blaenau, bydd CCG yn parhau i adeiladu ar y llwyddiannau ers trosglwyddo a chryfhau ymhellach fel sefydliad. Bydd sylw penodol yn cael ei roi ar barhau i weithredu y Cynllun Corfforaethol drwy broses o newid a rheoli rhaglen.

### **Trosolwg o Lywodraethu a Rheoleiddio**

#### **Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Dai (HARA)**

Mae Rhan 2 y Mesur Tai (Cymru) 2011 (y Mesur) sy'n ddiwygiad Rhan 1 y Ddeddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio LCC yng Nghymru. Mae'r mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol ac ymyrryd i'r Gweinidogion.

Yn fuan yn 2015, bu i Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Rheoleiddiol (RA) ar ran Gweinidogion Cymru. Bwriad yr Asesiad Rheoleiddiol yw darparu dealltwriaeth i denantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

eraill o ba mor dda rydym yn perfformio, ar amser penodol yn erbyn canlyniadau cyflawni sy'n ymwneud â:

- Gwasanaethau landlord
- Llywodraethu
- Rheolaeth Gyllidol

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddiol yn unol â dull yn seiliedig ar risg tuag at reoleiddio sydd wedi ei nodi yn y 'Fframwaith Rheoleiddio' a chanllawiau cysylltiol '*Improving the implementation of the Regulatory Framework: a risk based approach to regulation*' a '*Sector risks facing housing associations in Wales*'.

Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn drwy gyswllt rheoleiddiol parhaus gyda CCG ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei ddarparu er mwyn creu barn reoleiddiol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2015 a derbyniwyd y casgliadau fel asesiad rhesymol a theg gan y Bwrdd. Mae'r berthynas gyda'r Rheoleiddiwr yn parhau i fod yn iach gyda chyswllt rheolaidd wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol.

### **Siarter Llywodraethu Da a Chod Llywodraethiant**

Bu i'r Bwrdd barhau i ddilyn Siarter Llywodraethu Da Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) sydd wedi ei ddatblygu i ddangos ymrwymiad gweledol i lywodraethu da.

Yn dilyn cyhoeddi Cod Llywodraethol y sector ym mis Chwefror 2015 fel cafodd ei ddatblygu gan Cartrefi Cymunedol Cymru, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd 'dadansoddiad bwlch cydymffurfio' gyda'r Bwrdd. Y canlyniadau oedd bod CCG mewn sefyllfa i ddangos cydymffurfiaeth gyda mwyafrif o'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Roedd y Cynllun Gweithredu Cydymffurfio yn cynnwys darpariaethau ar gyfer proses 'werthuso' fwy ffurfiol ar gyfer y Bwrdd ac adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu a pholisïau cefnogol.

### **Strwythur Bwrdd a Phwyllgorau**

Mae rheolau CCG yn nodi bod angen deuddeg aelod ar y Bwrdd sy'n cynnwys pedwar tenant, pedwar enwebai o Lywodraeth Leol a phedwar aelod annibynnol; maent i gyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol i CCG. Daw'r aelodau o gefndiroedd amrywiol gan ddod a phrofiadau proffesiynol, masnachol a lleol i CCG. Mae aelodau y Bwrdd Rheoli a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sydd wedi gwasanaethu yn ystod y flwyddyn wedi ei nodi ar dudalen 1.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar fframwaith polisi a chyfeiriad strategol cyffredinol y cwmni, ac er mwyn alinio'r Strwythur Llywodraethol yn

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

well gyda disgwyliadau'r Cod Llywodraethol, adolygwyd strwythur pwyllgorau a dogfennau llywodraethu CCG yn ystod y flwyddyn.

Wedi adolygu y Strwythur Llywodraethol a'r Rheolau Sefydlog, sefydlwyd pedwar pwyllgor gyda phwerau dirprwyedig sy'n galluogi craffu effeithiol ar faterion gweithredol, ac mae'r strwythur pwyllgorau newydd fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Asedau ac Isadeiledd
- Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau
- Pwyllgor Adnoddau

Mae'r strwythur adolygedig hefyd wedi ei gynllunio i gefnogi gofynion y sefydliad yn y dyfodol gan gynnwys y trawsnewid i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol newydd.

### **Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd**

Mae Deddf Cymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol yn gofyn bod y Bwrdd yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi adlewyrchiad teg a gwir o sefyllfa'r Gymdeithas a'r hyn sydd gan y Gymdeithas yn warged am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae gofyn i'r Bwrdd:-

- Dewis polisiâu cyfrifo addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a chall
- Nodi a yw safonau cyfrifo cymwys wedi eu dilyn
- Paratoi cyfrifon ar sail busnes gweithredol heblaw ei fod yn amhriodol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnod cywir o gyfrifo sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Gymdeithas a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cymdeithasau Gydweithredol a Budd Cymunedol a Deddfau Tai. I bennu sut y mae cyfansymiau'n cael eu cyflwyno o fewn eitemau yn y datganiad o incwm cynhwysfawr a'r datganiad o sefyllfa ariannol, mae'r Bwrdd wedi ystyried cynnwys y trafodyn neu drefniant sydd wedi ei adrodd yn unol ag egwyddorion neu ymarferion cyfrifo derbynol cyffredinol. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r Gymdeithas a gan hynny cymryd camau priodol i atal ac adnabod twyll neu anghysondebau eraill drwy sefydlu a chynnal system reoli foddhaol dros gofnodion cyfrifo'r Gymdeithas, daliadau arian parod a'i holl dderbyniadau a thaliadau.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am strategaeth a fframwaith polisi'r Gymdeithas ond yn dirprwyo rheolaeth ddyddiol a gweithrediad i'r Prif Weithredwr a'r Tim Arweinyddiaeth Weithredol.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### **Aelodaeth Cyfranddalwyr**

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan CCG 49 o gyfranddalwyr a phob un ohonynt yn dal cyfran o £1 yn CCG. Gall cyfranddalwyr ddylanwadu gwneud penderfyniadau o fewn y Gymdeithas drwy'r eu hawl i bleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol; mae gan bob tenant yr hawl i wneud cais i fod yn gyfranddaliwr.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dal un gyfran ar ran enwebai'r Awdurdod Lleol sydd ar y Bwrdd gyda gweddill aelodau'r Bwrdd yn gyfranddalwyr. Nid yw unrhyw un o'r uwch swyddogion yn dal unrhyw ddiddordeb yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r Gymdeithas.

### **Rheolaeth Fewnol**

Cyfrifoldeb cyffredinol y Bwrdd yw sefydlu a chynnal yr holl system reoli fewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod na all unrhyw system reoli fewnol roddi sicrwydd llwyr yn erbyn cam reoli materol neu golled neu gael gwared â bob risg o anallu i gyrraedd amcanion busnes. Mae'r system reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risgiau allweddol ac i roddi sicrwydd rhesymol bod amcanion busnes sydd wedi eu cynllunio a chanlyniadau yn cael eu cyrraedd. Mae hefyd yn bodoli er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn â pharatoi a dibynadwyedd yr wybodaeth ariannol a gweithredol, a gwarchod asedau a diddordebau'r gymdeithas.

Wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg gyda rheolaethau mewnol sydd wedi eu mewnosod o fewn y broses rheoli a llywodraethu arferol. Mae'r dull hwn yn cynnwys gwerthusiad rheolaidd o natur a maint risgiau y mae'r gymdeithas yn agored iddynt ac maent yn cyd fynd â chylchlythyr tai LIC RSL02/10: 'Rheoliadau Mewnol ac Adrodd.'

Mae'r broses sydd wedi ei mabwysiadu gan y Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ynghyd â rhai o'r prif elfennau'r fframwaith reoli yn cynnwys:

#### Adnabod a gwerthuso risgiau allweddol:

Mae Fframwaith Rheoli Risg CCG a gytunwyd gan y Bwrdd yn 2014/15 yn amlinellu'r prosesau ynghlwm â Rheoli Risg gan gynnwys adnabod, dadansoddi a chymau sgorio ynghyd â sut mae risgiau yn cael eu monitro yn y sefydliad. Mae'r fframwaith yn cyfeirio at y tri lefel o risg sef risgiau strategol, risgiau corfforaethol a risgiau yn seiliedig ar y gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau dull cyson o sgorio, mae matrices sgorio wedi ei ddatblygu fel rhan o'r fframwaith sy'n darparu offer cynhwysfawr ar gyfer asesu tebygolrwydd o risg yn codi'i ben ynghyd ag effaith risg o'r fath. Caiff y matrices



## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

sgorio effaith ei rannu i dri maes er mwyn sicrhau eglurder sef cost, amser ac effaith ansawdd.

Mae'r broses yn galluogi y sefydliad i adnabod risgiau allweddol ac unrhyw ansicrwydd, a'r risgiau mwyaf a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Diwygiad Lles
- Rhent wedi ei golli oherwydd eiddo gwag
- Staffio a recriwtio
- Capasiti'r Bwrdd ac olyniaeth
- Prosiectau isadeiledd mawr lleol
- Arall gyfeirio at weithgareddau eraill

Mae adnabod risgiau o'r fath o gymorth i adnabod ffordd briodol o fonitro risg i'w reoli a'i leihau, ac mae risgiau yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Caiff yr archwilio mewnol ei ddarparu gan gwmni o gyfrifwyr annibynnol ac maent yn dilyn rhaglen archwilio yn seiliedig ar risg ac maent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Gweithdrefnau rheoli cyffredinol:

Mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb am ystod ddiffiniedig o faterion yn ymwneud â materion strategol, gweithredol a chyllidol a materion cydymffurfio. Mae polisiau a gweithdrefnau yn ymdrin â materion megis awdurdod dirprwyedig, rhannu dyletswyddau, cyfrifo, rheolaeth trysorlys, iechyd a diogelwch, diogelu data ac ased ac adnabod ac atal twyll.

### Systemau gwybodaeth ac adrodd am gyllid:

Mae gweithdrefnau adrodd am gyllid yn cynnwys creu cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod, cynhyrchu cyfrifon rheoli manwl yn fisol a rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol ac ar gyfer blynyddoedd dilynol. Cant eu hadolygu yn fanwl gan gyfarwyddwyr gweithredol a chant eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Adnoddau yn chwarterol. Cant hefyd eu gyrru i'n Harianwyr fel rhan o'r gytundeb fenthyg. Mae pob Pwyllgor hefyd yn adolygu dangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd i asesu cynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion busnes allweddol, targedau a chanlyniadau.

### Monitro a gweithred cywiro:

Mae'r broses o reolwyr yn adrodd yn rheolaidd ar faterion rheoli yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn gadarn i sicrhau bod gweithred gywiro yn cael ei chymryd sy'n ymwneud ag unrhyw faterion rheoli mawr, yn enwedig y rhai a all effeithio yn faterol ar ddatganiadau cyllidol a darparu gwasanaethau.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Mae'r fframwaith reolaeth fewnol a'r broses rheoli risg yn ddarostyngedig i adolygiad rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried rheolaeth fewnol a risg ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, a bydd yn adolygu nifer o fapiau risg gweithredu yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ac mae wedi ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gynnal effeithiolrwydd rheolaeth risg a'r broses reoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau fod yna broses barhaus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Gymdeithas. Mae'r broses hon wedi bod yn ei lle ac yn cael ei adolygu drwy gydol y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd.

### **Datganiad Cydymffurfio**

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod yr Adroddiad Strategol hwn wedi ei baratoi yn unol ag egwyddorion sydd wedi eu nodi ym Mharagraff 4.7 y 'Housing SORP 2014'.

### **Yn ôl trefn y Bwrdd:**

---

Medwyn Hughes – Cadeirydd

Dyddiad: 21 Medi 2016



## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### ADRODDIAD ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU

#### CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Newidiad mewn Cronfeydd, Datganiad Sefyllfa Ariannol a Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi o dan gonfensiwn cost hanesyddol a'r polisiau cyfrifo sydd wedi eu nodi ynddynt.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth eu paratoi yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice).

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud i aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 87 o'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud fel y gallwn nodi i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae gofyn i ni eu nodi iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r ehangder fwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn neu am y farn yr ydym wedi ei greu.

#### **Cyfrifoldebau Priodol y Bwrdd a'r Archwilydd**

Fel caiff ei egluro yn ehangach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd ar dudalen 10, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg. Ein cyfrifoldeb yw archwilio a mynegi ein barn ar y datganiadau ariannol yn unol ag unrhyw gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Ryngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i ni gydymffurfio gyda Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

#### **Sgôp archwilio o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd digonol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam ddatganiadau materol, un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Gymdeithas a'u bod wedi eu cymhwyso yn gyson a'u datgelu yn ddigonol; rhesymoldeb rhagamcanion cyfrifo sylweddol a wneir gan y Bwrdd; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth sydd ddim yn ariannol yn yr Adroddiad Bwrdd er mwyn adnabod anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwilio. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol neu anghysondebau, rydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg o sefyllfa'r Gymdeithas ar y 31 Mawrth 2016 ac o'i incwm a'i wariant am y cyfnod a ddaeth i ben; a
- wedi eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, y Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 a Gofynion Cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015.

### Materion lle mae angen i ni adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol lle mae'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad oes yna system reoli dros drafodion wedi ei gynnal; neu
- nad yw'r gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd fynd a'r llyfr cyfrifon; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad yr ydym ei angen ar gyfer ein harchwiliad.

**Beever and Struthers**  
**Chartered Accountants and Statutory Auditors**  
**St George's House**  
**215 – 219 Chester Road**  
**Manchester**  
**M15 4JE**  
**Dyddiad: 21 Medi 2016**

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Datganiad Incwm Cynhwysfawr**  
**Blwyddyn 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016**

	<b>Nodiadau</b>	<b>2016</b>	<b>2015</b>
		<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Trosiant	2	30,282	29,745
Gwariant Gweithredu	2	(22,922)	(22,138)
<b>Gweddill Gweithredu / (Diffyg)</b>		<b>7,360</b>	<b>7,607</b>
Enillion / (Colled) ar Eiddo ac Offer wedi eu gwaredu		1,496	1,015
Llog Derbyniadwy	4	7	774
Costau Llog ac Ariannu	4	(3,988)	(3,413)
<b>Gweddill / (Diffyg) cyn Treth</b>	<b>5</b>	<b>4,875</b>	<b>5,983</b>
Trethiant	20	0	0
<b>Gwarged / (Diffyg) ar gyfer y Flwyddyn</b>		<b>4,875</b>	<b>5,983</b>
Enillion Actiwaraid / (Colled) ar Gynlluniau Pensiwn		2,444	(2,375)
<b>Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn</b>		<b>7,319</b>	<b>3,608</b>

Mae canlyniadau'r gymdeithas yn ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau sy'n parhau.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 20 i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar y 21 Medi 2016 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

Medwyn Hughes – Cadeirydd      Mark Jones – Is-gadeirydd      Rhys Evans – Ysgrifennydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 41 yn ran annatod o'r cyfrifon hyn.

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Datganiad o Newid mewn Cronfeydd**  
**Blwyddyn 01 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016**

	<b>Cyfanswm Cronfeydd £'000</b>
Balans ar 1 Ebrill 2014	31,658
Gweddill / (Diffyg) o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr	3,608
<b>Balans ar 1 Ebrill 2015</b>	<b>35,266</b>
Gweddill / (Diffyg) o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr	7,319
Addasiad y cyfnod blaenorol	(81)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>42,504</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 41 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Datganiad Sefyllfa Ariannol**

**ar 31 Mawrth 2016**

	Nodyn	Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016		Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau Sefydlog</b>					
Asedau Sefydlog Pendant	6 a 7		116,102		109,889
<b>Asedau Cyfredol</b>					
Stoc	8	60		66	
Dyledwyr Masnach ac Eraill	9	15,418		12,262	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	10	1,947		2,680	
<b>Llai:</b> Dyledwyr o fewn Un flwyddyn	11	(31,243)		(29,550)	
<b>Asedau / (Atebolrwydd) Cyfredol Net</b>			<b>(13,818)</b>		<b>(14,542)</b>
<b>Cyfanswm Asedau llai Atebolrwydd Cyfredol</b>			<b>102,284</b>		<b>95,347</b>
Dyledwyr : Taladwy ar ôl un flwyddyn	9		75,344		88,601
Credydwyr : Taladwy ar ôl un flwyddyn	12		(133,850)		(145,599)
Darpariaeth ar gyfer Atebolrwydd					
- Darpariaeth Pensiwn	16	(1,196)		(2,836)	
- Darpariaethau Eraill	13	(78)	(1,274)	(328)	(3,164)
<b>CYFANSWM ASEDAM NET</b>			<b>42,504</b>		<b>35,185</b>
<b>Cronfeydd:</b>					
Cyfalaf Cyfrannau ddi-ecwiti	14	-		-	
Cronfa Incwm a Gwariant		42,504		35,185	
<b>CYFANSWM CRONFEYDD</b>			<b>42,504</b>		<b>35,185</b>

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 20 i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar y 21 Medi 2016 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

Medwyn Hughes – Cadeirydd

Mark Jones – Is-gadeirydd

Rhys Evans – Ysgrifennydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 41 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Datganiad Llif Arian**  
**Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016**

	Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016		Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015	
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Arian Parod Net wedi ei greu o Weithgareddau Gweithredu</b>		<b>10,818</b>		<b>12,967</b>
<b>Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi</b>				
Prynu Asedau Sefydlog Pendant	(11,203)		(30,316)	
Enillion o Werthu Asedau Sefydlog Pendant	1,713		1,208	
Grantiau wedi eu derbyn	720		1,245	
Llog wedi ei dderbyn	6		12	
		<u>(8,764)</u>		<u>(27,851)</u>
<b>Llif Arian o Weithgareddau Ariannu</b>				
Llog wedi ei dalu	(3,787)		(3,413)	
Benthyciadau Newydd wedi eu sicrhau	4,000		37,000	
Ad-dalu Benthyciadau	(3,000)		(17,000)	
		<u>(2,787)</u>		<u>16,587</u>
<b>Newid Net mewn Arian Parod a chyfwerth ag arian parod</b>		<b>(733)</b>		<b>1,703</b>
Arian Parod a Chyfwerth ar Gychwyn y Flwyddyn		2,680		977
Arian Parod a Chyfwerth ar Ddiwedd y Flwyddyn		1,947		2,680

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Cysoni y Warged Net i Fewnlif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu**

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016		Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015	
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwarged ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>4,875</b>		<b>5,983</b>
<b>Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd ddim yn arian parod:</b>				
Dibrisiant Asedau Sefydlog Pendant	4,777		5,256	
Lleihad / (Cynnydd) yn y stoc	6		(15)	
Lleihad / (Cynnydd) mewn Dyledwyr Masnach ac Eraill	1,888		(546)	
Cynnydd / (Lleihad) mewn Credydwyr Masnach ac Eraill	(3,538)		45	
Cynnydd / (Lleihad) mewn Darpariaethau	(250)		328	
Costau Pensiwn I lai Cyfraniadau sy'n Daladwy	603		353	
Swm Cario o Warediadau Asedau Sefydlog	217		193	
		<b>3,703</b>		<b>5,614</b>
<b>Addasiadau ar gyfer Buddsoddi neu Weithgareddau Ariannu:</b>				
Enillion o Werthu Asedau Sefydlog Pendant	(1,713)		(1,208)	
Grantiau'r llywodraeth wedi eu defnyddio yn ystod y flwyddyn	(29)		(61)	
Llog sy'n ddyledus	3,787		3,413	
Llog wedi ei dderbyn	195		(774)	
		<b>2,240</b>		<b>1,370</b>
<b>Arian Parod Net wedi ei greu o Weithgareddau Gweithredu</b>		<b>10,818</b>		<b>12,967</b>

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016

### Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

#### 1. PRIF BOLISIAU CYFRIFO

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi ei ymgorffori o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel Darparwr tai cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r gymdeithas yn endid budd cyhoeddus a'i swyddfa gofrestrredig yw Unedau 6 a 7, Llys Castan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4FH

#### Sail Cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â 'United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice (UK GAAP)' perthnasol a Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: Housing SORP 2014. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Gofynion Cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cost cyfrifo hanesyddol a chant eu cyflwyno mewn sterling. Heblaw ei fod yn cael ei nodi fel arall, caiff niferoedd eu nodi i'r £1,000 agosaf.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â FRS102 gan ei fod yn gymwys am y tro cyntaf i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Bu i'r sefydliad newid o'r GAAP blaenorol i FRS102 ar y 1 Ebrill 2014. Mae eglurhad o sut mae'r newid i FRS102 wedi effeithio ar adroddiad y sefyllfa ariannol a pherfformiad i'w weld yn nodyn 23.

#### Busnes Gweithredol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol sy'n tybio y gallu i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

#### Dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifau a thybiaethau wrth baratoi datganiadau ariannol sy'n effeithio ar y symiau sydd wedi eu hadrodd ar gyfer asedau ac atebolrwydd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol a'r symiau sy'n cael eu hadrodd ar gyfer referniw a threuliau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae natur thybiaethau yn golygu y gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei ragamcanu. Y dyfarniadau canlynol (heblaw am y rhai sy'n ymwneud a rhagamcanion) sydd wedi effeithio fwyaf ar symiau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol:

- **Gwariant ar Ddatblygu.** Mae'r gymdeithas yn cyfalafu gwariant datblygu yn unol â pholisi cyfrifo sydd wedi ei ddisgrifio o dan "Asedau Sefydlog" ar dudalen 23. Mae cyfalafu costau cychwynnol yn seiliedig ar ddyfarniad rheolwyr bod cynllun datblygu wedi ei gadarnhau, fel arfer pan fydd y Bwrdd wedi rhoi cymeradwyaeth gan gynnwys mynediad i ariannu priodol ar ei gyfer. Wrth bennu a yw prosiect yn debygol o ddod i ben, mae rheolwyr yn monitro'r datblygiad ac mae'n ystyried a yw newidiadau wedi digwydd sy'n creu amhariad.



## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016

- **Categoreiddio tai.** Mae'r gymdeithas wedi cynnal adolygiad manwl o'r defnydd a fwriedir o'i eiddo - bu i'r adolygiad ddod i'r casgliad bod pob eiddo yn cael eu cadw ar gyfer budd cymdeithasol.

### Ffynonellau eraill allweddol o amcangyfrif a thybiaethau:

- **Asedau Sefydlog Pendant.** Fel sy'n cael ei fanylu ar y dudalen nesaf, caiff asedau sefydlog pendant eu dibrisio yn ystod eu bywyd defnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol y cyfrif, lle bo'n briodol. Caiff gwir fywyd yr asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hasesu yn flynyddol a gall amrywio yn ddibynnol ar nifer o ffactorau. Wrth ail asesu bywydau ased, rhoir ystyriaeth i ffactorau fel arloesiad technolegol, cylchoedd bywyd cynnyrch a rhaglenni trwsio. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn rhoi ystyriaeth i faterion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, faint o fywyd sydd ar ôl i'r ased a gwerthoedd gwaredu sydd wedi eu rhagamcanu.
- **Pensiwn a buddion ôl-cyflogaeth arall.** Caiff cost cynlluniau pensiwn budd wedi ei ddiffinio a buddion ôl-gyflogaeth eraill eu pennu gan ddefnyddio prisiant actiwari. Mae'r prisiant actiwari yn golygu gwneud tybiaethau am gyfraddau disgownt, cynyddiadau cyflog yn y dyfodol, cyfraddau marwolaethau a chynyddiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiant, y tybiaethau gwaelodol a natur tymor hir y cynlluniau hyn, mae yna ansicrwydd mawr am yr amcanbrisiau hyn. Wrth bennu cyfradd disgownt priodol, mae rheolwyr yn ystyried cyfraddau llog bondiau corfforaethol yn yr arian priodol gydag o leiaf cyfradd AA, gyda allosodiad aeddfedrwydd yn cyfateb i hyd ddisgwyliedig y goblygiad budd sydd wedi ei ddiffinio. Caiff y bondiau eu hadolygu ymhellach i sicrhau ansawdd ac mae'r rhai lle mae yna amrywiaeth credyd gormodol yn cael eu tynnu o boblogaeth y bondiau lle mae'r gyfradd ddisgownt yn seiliedig, ar y sail nad ydynt yn cynrychioli bondiau o ansawdd uchel. Mae'r gyfradd marwolaeth yn seiliedig ar y tablau cyfradd marwolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer y sector benodol. Mae cynyddiadau cyflogau yn y dyfodol a chynyddiadau pensiwn yn seiliedig ar chwyddiant cyfraddau disgwyliedig ar gyfer y sector dan sylw. Mae manylion pellach yn nodyn 16.
- **Amhariad ar asedau sydd ddim yn asedau ariannol.** Caiff adolygiadau ar gyfer amhariad ar dai eu cynnal pan fydd triger wedi codi'i ben a chaiff unrhyw golled amhariad mewn uned sy'n creu arian ei gydnabod drwy godi tal i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Caiff amhariad ei gydnabod pan fydd gwerth llyfr uned sy'n creu arian yn uwch na'r gwerth net gellir ei wireddu, neu ei werth mewn defnydd. Fel arfer, uned sy'n creu arian yw grwp o eiddo ar lefel cynllun lle gall eu hincwm arian parod gael eu hadnabod ar wahan.

Yn dilyn triger ar gyfer amhariad, mae'r gymdeithas yn cynnal profion amhariad yn seiliedig ar gostau llai gwerth teg i werthu neu gyfrifiad gwerth mewn defnydd. Mae'r cyfrifiad gwerth teg llai costau yn seiliedig ar ddata sydd

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016

ar gael o drafodion gwerthu mewn trafodyn hyd braich ar unedau (eiddo) tebyg sy'n creu arian neu brisiau'r farchnad llai costau cynyddol ar gyfer gwaredu'r eiddo. Mae'r cyfrifiad gwerth mewn defnydd yn seiliedig ar gost adnewyddu wedi ei ddibrisio neu model llif arian parod gyda disgownt. Mae'r gost adnewyddu wedi ei ddibrisio yn seiliedig ar ddata cost sydd ar gael drwy adeiladu neu gaffael eiddo yn lle rhai eraill i ddarparu'r un lefel o wasanaeth potensial i'r gymdeithas fel ac y mae'r eiddo presennol. Daw'r llif arian o'r cynllun busnes ar gyfer y 30 mlynedd nesaf ac nid ydynt yn cynnwys gweithgareddau ailstrwythuro nad yw'r gymdeithas eto wedi derbyn yr hawl i ymgymryd â hwy neu fuddsoddiad sylweddol yn y dyfodol a fydd yn gwella perfformiad yr ased o ran yr uned creu arian sy'n cael ei brofi. Mae'r swm a ellir ei adennill ar ei fwyaf sensitif i'r gyfradd disgownt a ddefnyddir ar gyfer y model llif arian disgownt ynghyd â'r llif arian disgwylidig a'r gyfradd dwf a ddefnyddir ar gyfer defnydd allosod.

Yn dilyn asesu amhariad, ni ddarganfuwyd unrhyw golledion amharu yn y cyfnod adrodd dan sylw.

#### Trosiant

Mae trosiant yn cynnwys:

- Rhent a thâl gwasanaeth derbyniadwy net tai gwag;
- Grantiau gan Lywodraeth Cymru;
- Ffioedd a
- Grantiau Refeniw.

#### Asedau Sefydlog a dibrisiant

Mae'r Gymdeithas yn dibrisio ei eiddo yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a gaiff ei Argymhell (Statement of Recommended Practice - SORP) "Cyfrifo Gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig".

Caiff tai sy'n ganol cael eu hadeiladu eu nodi ar gost a ni chant eu dibrisio. Caiff y rhain eu hail ddsbarthu fel eiddo tai pan fydd y gwaith adeiladu wedi gorffen.

Ni chaiff tir rhydd-ddaliol ei ddibrisio.

Caiff eiddo rhydd-ddaliol eu dibrisio gan gydran ar sail llinell syth dros gyfnod bywyd defnyddiol y categorïau o gydrannau.

Bywyd economaidd defnyddiol ar gyfer cydrannau sydd wedi eu hadnabod yw:

Eifen	Blynyddoedd
Strwythur yr Adeilad	80 mlynedd
Toi	60 mlynedd
Ffenestri a Drysau	30 mlynedd
Gwres Canolog	20 mlynedd
Ceginau	15 mlynedd
Ystafell Ymolchi	25 mlynedd
Weirio Trydanol	30 mlynedd
Walïau a Gwaith Allanol Eraill	50 mlynedd

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

Addasiadau'r Anabl	10 mlynedd
--------------------	------------

Caiff dibrisiant ei godi dros fywyd defnyddiol disgwylidig ased sy'n ymwneud â stadau a thiroedd eraill fel a ganlyn:

Ased	Blynyddoedd
Ffensio	40 mlynedd
Llwybrau	30 mlynedd
Dreinio	30 mlynedd
Llefydd Parcio	30 mlynedd
Golau Stryd	20 mlynedd

Caiff dibrisiant ei godi dros fywyd economaidd defnyddiol disgwylidig asedau sefydlog eraill fel a ganlyn:

Ased	Blynyddoedd
Swyddfeydd	15 i 80 mlynedd
Modurdai	30 i 60 mlynedd
Siopau	15 i 80 mlynedd
Cerbydau ac Offer	3 mlynedd
Offer TG	5 i 10 mlynedd

### Stoc

Caiff stociau o ddeunyddiau eu datgan ar y lleiaf o gost a gwerth net gellir ei wireddu sef y pris gwerthu tybiedig llai costau cwblhau a gwerthu. Mae cost yn seiliedig ar gost prynu ar sail cyntaf mewn cyntaf allan. Ar bob dyddiad adrodd caiff stoc ei asesu ar gyfer unrhyw amhariad. Os oes yna dystiolaeth o unrhyw amhariad, caiff y gwerth ei leihau i'w bris gwerthu llai costau i gwblhau a gwerthu, gyda'r golled amhariad yn cael ei gydnabod yn syth yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### Grantiau Tai Cymdeithasol a Grantiau Eraill y Llywodraeth

Pan fo datblygiadau wedi eu hariannu i gyd neu'n rhannol gan grantiau tai cymdeithasol neu arian arall, mae swm y grant sydd wedi ei dderbyn wedi ei gynnwys yn yr incwm gohiriedig ac yn cael ei gydnabod yn y Trosiant dros ragamcan o fywyd defnyddiol y strwythur ased cysylltiol (dim tir) o dan y model cronni. Caiff y Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a dderbynnir ar gyfer eitemau cost sydd wedi eu dileu yn y datganiad incwm cynhwysfawr eu cynnwys fel rhan o'r Trosiant.

Pan fydd GTC ar gyfer tai sy'n cael eu hadeiladu yn fwy na chyfanswm y gost ar gyfer yr eiddo hynny, caiff y gormodedd ei ddangos fel atebolrwydd presennol.

## **CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**

### **DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

Rhaid i GTC gael ei ailgylchu o dan amodau penodol, os caiff eiddo ei werthu, neu os oes digwyddiad perthnasol arall. Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio'r GTC ar gyfer prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, efallai y byddai'n rhaid ad-dalu GTC os na chaiff amodau penodol eu cwrdd. Os nad oes yna ofyn am ailgylchu neu ad-dalu'r grant, caiff unrhyw grant sydd heb ei ddefnyddio ei gydnabod fel Trosiant. Mewn achosion penodol, efallai y bydd y GTC yn ad-daladwy ac os felly mae'n ddyled israddol ad-daladwy heb ei ddiogelu.

#### **Croniad Tâl Gwyliau**

Caiff atebolrwydd ei gydnabod hyd eithaf unrhyw hawl i dâl gwyliau sydd heb ei ddefnyddio sydd wedi ei gronni ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol a'i gario ymlaen i gyfnodau eraill. Caiff ei fesur ar y gost cyflog heb ei ddisgowntio ar hawl gwyliau yn y dyfodol felly wedi cronni ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol.

#### **Trwsio, Cynnal a Chadw**

Caiff costau trwsio a chynnal a chadw eu nodi fel wedi ei wario ar sail gwaith wedi ei wneud ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol.

#### **Prydlesau Gweithredu**

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesau gweithredu eu cydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

#### **Treth ar Werth**

Mae'r Sefydliad wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Mae rhan fawr o'i incwm gan gynnwys derbyniadau rhent, wedi eu heithrio ar gyfer diben TAW. Lle nad oes posib adennill TAW caiff gwariant ar gyfer y gweithgareddau hyn eu dangos yn y cyfrifon gan gynnwys TAW heblaw am bob gwariant trwsio mawr sy'n cael ei ddangos ac eithrio TAW. Mae'r Sefydliad wedi gallu manteisio ar y rhyddhad Lloches TAW sydd ar gael iddo.

#### **Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu hadnabod lle mae yna ansicrwydd o ran amseru neu faint sydd ei angen i setlo atebolrwydd posib. Caiff unrhyw symiau eu codi i'r datganiad incwm cynhwysfawr a'i gredydu i'r datganiad sefyllfa ariannol yn seiliedig ar amcangyfrif gorau'r Gymdeithas o atebolrwydd posib.

#### **Pensiynau**

Mae gan y Gymdeithas ddau gynllun pensiwn :-

Mae **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** (Local Government Pension Scheme - LGPS) yn gynllun budd diffiniedig wedi ei reoli gan Cyngor Gwynedd. Caiff cyfraniadau eu hasesu yn unol â chyngor gan actiwari annibynnol cymwys. Caiff gwybodaeth benodol o ran asedau, atebolrwydd, incwm a gwariant yn

## **CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**

### **DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

ymwneud â'r cynllun LGPS eu datgan yn unol ag Adran 28 y Safon Adrodd Ariannol Rhif 102 - Buddion i'r Cyflogai.

Mae'r **Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol** (Social Housing Pension Scheme - SHPS) yn gynllun cyfraniad wedi ei ddiffinio wedi ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Bensiynau. Caiff cyfraniadau eu codi i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn seiliedig ar y gwir daliadau a wnaed i'r cynllun drwy gyfraniadau'r cyflogwr.

#### **Tâl am Wasanaeth**

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gweithredu tâl am wasanaeth cyfraddau sefydlog ac amrywiol ar sail cynllun wrth gynllun mewn ymgynghoriad lawn gyda phreswylwyr. Pan fydd tâl gwasanaeth amrywiol yn cael ei ddefnyddio byddant yn cynnwys lwfans ar gyfer y gweddill neu ddiffyg o flynyddoedd blaenorol gyda'r gweddill yn cael ei ddychwelyd i breswylwyr drwy lai o dâl a'r diffyg yn cael ei adennill drwy godi mwy o dâl. Hyd y bydd rhain wedi eu dychwelyd neu adennill cant eu dal fel credydwyr neu ddyledwyr yn y datganiad sefyllfa ariannol.

Pan fydd gofyn cael gwariant cyfnodol gellir cronni darpariaeth dros y blynyddoedd mewn ymgynghoriad gyda phreswylwyr. Hyd y bydd y costau hyn wedi eu hachosi caiff yr atebolrwydd ei ddal yn y datganiad sefyllfa ariannol o fewn credydwyr tymor hir.

#### **Incwm Cefnogol a chostau gan gynnwys incwm a chostau Cefnogi Pobl**

Caiff incwm cytundeb Cefnogi Pobl (CP) a dderbynnir gan Awdurdodau Gweinyddol ei gyfrifo fel incwm CP yn nhrosiant nodyn 2. Caiff y costau cefnogi perthnasol eu paru yn erbyn yr incwm yma yn yr un nodyn.

Caiff taliadau cefnogaeth sydd wedi eu cynnwys yn y rhent eu cynnwys yn yr incwm a gwariant o osodiadau tai cymdeithasol nodyn 3 a'u paru yn erbyn y costau perthnasol.

#### **Cyllid benthyciadau**

Mae dyled y Gymdeithas wedi ei drin fel "sylfaenol" yn unol â pharagraffau 11.8 a 11.9 o FRS 102. Mae gan y Gymdeithas rhai benthyciadau cyfradd sefydlog sydd â chymal torri ddwy ffordd (h.y. yn ychwanegol i iawndal sy'n daladwy gan un sydd wedi benthyg i fenthyciwr os yw benthyciad yn cael ei blaen-dalu pan mae'r gyfradd sefydlog yn is na chyfradd sefydlog bresennol y benthyciad, gall iawndal fod yn daladwy gan y sawl sydd wedi benthyg i'r benthyciwr pan fydd y benthyciad yn cael ei blaen-dalu a bod y gyfradd sefydlog yn uwch na chyfradd sefydlog y benthyciad presennol.) Bu i'r Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) wneud datganiad ar y 2 Mehefin 2016 mewn perthynas â benthyciadau o'r fath heb unrhyw arweiniad penodol o ran a ddylent gael eu nodi fel "sylfaenol" neu "ddim yn sylfaenol". Ar y sail bod y Gymdeithas yn credu bod cydnabod atebolrwydd pob dyled ar gost yn darparu sefyllfa fwy clir a dealladwy o sefyllfa ariannol y Gymdeithas a bod pob benthyciad yn parhau i fodloni'r gofynion ym

## **CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**

### **DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

mharagraffau 11.8 a 11.9 o FRS 102, mae'r gymdeithas wedi cadw ei ffordd "sylfaenol" o ymdrin â'i ddyled yn dilyn cyhoeddiad y FRC.

#### **Costau creu cyllid benthyciadau**

Caiff y rhain eu dileu yn wastad yn ystod bywyd y benthyciad. Caiff benthyciadau eu nodi yn y datganiad sefyllfa ariannol ar gyfanswm yr enillion net wedi eu creu, gan ychwanegu cynyddiadau ar gyfer unrhyw symiau wedyn a gaiff eu dileu. Pan fydd benthyciadau yn cael eu tynnu i lawr yn ystod y flwyddyn, caiff unrhyw gosbau adbrynu ac unrhyw gostau creu benthyciad cysylltiedig eu cydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn lle ddigwyddodd yr adbrynu.

#### **Trethiant**

Mae gan y Gymdeithas statws elusenol ac felly nid yw'n atebol i dalu Treth Corfforaeth ar ei weithgareddau elusenol.

#### **Goblygiad Trosglwyddo Stoc**

Pan drosglwyddwyd y stoc yn 2010, bu i'r gymdeithas ymgymryd â chytundeb i brynu'r eiddo gan yr awdurdod lleol ac i adnewyddu'r tai hynny. Mae'r ymrwymadau sy'n ddyledus o'r cytundeb yn dod i ddim (zero) ac nid ydynt wedi eu datgelu yn flaenorol yn y Datganiadau Ariannol; mae'r FRS 102 newydd fodd bynnag yn gofyn bod gwerthoedd gros y goblygiadau hyn yn cael eu cydnabod ac felly mae'r Datganiad Sefyllfa Ariannol bellach yn dangos yr asedau cysylltiol ac atebolrwydd fel dyledwyr a chredydwyr wedi eu rhannu i oblygiadau sy'n ddyledus o fewn un flynedd ac yn ddyledus fwy na un flynedd. (Gweler hefyd nodiadau 9,11 a 12.)

Gan fod yr asedau ac atebolrwydd yn cyd fynd, nid yw eu cydnabod yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffigwr net cyfredol ar gyfer asedau/atebolrwydd nac yn gwneud gwahaniaeth i gyfanswm y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Maent fodd bynnag yn cynyddu gwerthoedd dyledwyr a chredydwyr unigol yn sylweddol wrth gymharu â Datganiadau Ariannol blaenorol.

Fel mae'r gymdeithas yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith gwella ar ei dai, bydd y goblygiadau trosglwyddo stoc yn lleihau dros y blynyddoedd i ddod.



**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**2. TROSIANT, COSTAU GWEITHREDU A GWARGED**

	2016			Ailddatgan 2015		
	Trosiant £'000	Costau gweithredu £'000	Gwarged Gweithredu £'000	Trosiant £'000	Costau gweithredu £'000	Gwarged Gweithredu £'000
<b>GOSOD TAI CYMDEITHASOL (Nodyn 3)</b>	29,928	(22,769)	7,159	29,395	(21,992)	7,403
<b>GWEITHGAREDDAU TAI CYMDEITHASOL ERAILL</b>						
Incwm cytundebau Cefnogi Pobl	113	(78)	35	120	(75)	45
<b>GWEITHGAREDDAU TAI SYDD DDIM YN GYMDEITHASOL</b>						
Gosod siopau a thiroedd eraill	108	(33)	75	108	(32)	76
Gosod modurdai i rai sydd ddim yn denantiaid	133	(42)	91	122	(39)	83
<b>CYFANSWM</b>	<b>30,282</b>	<b>(22,922)</b>	<b>7,360</b>	<b>29,745</b>	<b>(22,138)</b>	<b>7,607</b>



**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**3. MANYLION INCWM A GWARIANT O OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL**

	2016			Ailddatgan 2015		
	Tai Cyffredinol	Tai Cefnogol	Cyfanswm	Tai Cyffredinol	Tai Cefnogol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>INCWM</b>						
Rhent a ellir ei dderbyn net tâl gwasanaethau wedi ei adnabod a net tai gwag	(24,004)	(1,343)	<b>(25,347)</b>	(23,297)	(1,293)	<b>(24,590)</b>
Incwm Tâl Gwasanaeth	(93)	(286)	<b>(379)</b>	(78)	(313)	<b>(391)</b>
<b>Rhent a dderbynnir</b>	<b>(24,097)</b>	<b>(1,629)</b>	<b>(25,726)</b>	<b>(23,375)</b>	<b>(1,606)</b>	<b>(24,981)</b>
Incwm Cytundebau Lefel Gwasanaeth	-	-	-	(61)	(4)	<b>(65)</b>
Grantiau Refeniw wedi eu derbyn	(3,850)	(250)	<b>(4,100)</b>	(3,845)	(255)	<b>(4,100)</b>
Grantiau Cyfalaf wedi eu defnyddio	(29)	-	<b>(29)</b>	(54)	(7)	<b>(61)</b>
Incwm Amrywiol	(68)	(5)	<b>(73)</b>	(177)	(12)	<b>(189)</b>
<b>TROSIANT O OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL</b>	<b>(28,044)</b>	<b>(1,884)</b>	<b>(29,928)</b>	<b>(27,512)</b>	<b>(1,884)</b>	<b>(29,396)</b>
<b>GWARIANT GWEITHREDU</b>						
Cost Tâl Gwasanaeth	1,780	368	<b>2,148</b>	1,815	492	<b>2,307</b>
Rheoli	7,657	702	<b>8,359</b>	7,087	707	<b>7,794</b>
Cynnal a Chadw Arferol	5,008	191	<b>5,199</b>	4,185	189	<b>4,374</b>
Cynnal a Chadw wedi ei gynllunio	2,284	4	<b>2,288</b>	2,467	1	<b>2,468</b>
Colled rhent o ddyledion drwg	190	12	<b>202</b>	168	11	<b>179</b>
Dibrisiant Eiddo Tai	4,253	320	<b>4,573</b>	4,635	236	<b>4,871</b>
<b>CYFANSWM GWARIANT GWEITHREDU</b>	<b>21,172</b>	<b>1,597</b>	<b>22,769</b>	<b>20,357</b>	<b>1,636</b>	<b>21,993</b>
<b>GWARGED GWEITHREDU AR OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL</b>	<b>(6,872)</b>	<b>(287)</b>	<b>(7,159)</b>	<b>(7,155)</b>	<b>(248)</b>	<b>(7,403)</b>
<b>Colledion Tai Gwag</b>	<b>670</b>	<b>27</b>	<b>697</b>	<b>940</b>	<b>41</b>	<b>981</b>



**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**4. LLOG SY'N DALADWY A LLOG A DERBYNIADWY**

<b>a. Llog sy'n daladwy a Chostau Tebyg</b>	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Ar fenthyciadau	3,690	3,314
Ffioedd dim defnydd	97	99
Colled Net ar Fuddsoddiadau y Gronfa Bensiwn	201	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>3,988</b>	<b>3,413</b>

  

<b>b. Llog a dderbynnir a Chostau Tebyg</b>	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>Ailddatgan</b>
		<b>£'000</b>
Ar fuddsoddiadau	7	12
Dychweliad Net ar Fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn	-	762
<b>CYFANSWM</b>	<b>7</b>	<b>774</b>

**5. GWARGED AR GYFER Y FLWYDDYN**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Nodir y warged gweithredu ar gyfer y flwyddyn ar ôl codi:		
Taliadau Archwilwyr - yn eu gwaith fel archwilwyr	16	16
Taliadau Prydlesau Gweithredu	436	341
Dibrisiant Tai	4,573	4,847
Dibrisiant Asedau Eraill	203	385

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**6. ASED AU SEFYDLOG PENDANT (TAI)**

	Tai ar gyfer eu Gosod	Asedau yn cael eu hadeiladu	Ar y Gweill	Cyfanswm
	2016	2016	2016	2016
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost</b>				
<b>Ar ddechrau'r flwyddyn (Ailddatgan)</b>	<b>111,291</b>	<b>315</b>	<b>7,726</b>	<b>119,332</b>
Gwaredu	(217)	-	-	(217)
Trosglwyddo gwaith wedi ei gwblhau	6,600	-	(6,600)	-
Ychwanegiadau	9,753	1,263	-	11,016
<b>Cost ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>127,427</b>	<b>1,578</b>	<b>1,126</b>	<b>130,131</b>
<b>Dibrisiant a Amhariad</b>				
<b>Ar ddechrau'r flwyddyn (Ailddatgan)</b>	<b>10,840</b>	-	-	<b>10,840</b>
Gwaredu	(24)	-	-	(24)
Cost am y flwyddyn	4,573	-	-	4,573
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>15,389</b>	-	-	<b>15,389</b>
<b>Gwerth Llyfr Net</b>				
Ar ddiwedd y flwyddyn	<b>112,038</b>	<b>1,578</b>	<b>1,126</b>	<b>114,742</b>
Ar ddechrau'r flwyddyn (Ailddatgan)	<b>100,451</b>	<b>315</b>	<b>7,726</b>	<b>108,492</b>

Mae Asedau yn cael eu hadeiladu yn cynrychioli eiddo adeiladu o'r newydd sy'n cael eu hadeiladu, ac mae Ar y Gweill yn cynrychioli gwaith gwella sydd ar y gweill.



**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**

**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**7. ASEDAU SEFYDLOG PENDANT ERAILL**

	Swyddfeydd	Cerbydau	Cyfrifiaduron, Dodrefn ac Offer Swyddfa	Cyfanswm 2016	Swyddfeydd	Cerbydau	Cyfrifiaduron, Dodrefn ac Offer Swyddfa	Cyfanswm 2015
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost</b>								
<b>Ar ddechrau'r flwyddyn</b>	<b>1,025</b>	<b>159</b>	<b>1,894</b>	<b>3,078</b>	<b>992</b>	<b>159</b>	<b>1,711</b>	<b>2,862</b>
Ychwanegiadau	-	-	166	166	33	-	183	216
Gwaredu	-	(6)	-	(6)	-	-	-	-
<b>Cost ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>1,025</b>	<b>153</b>	<b>2,060</b>	<b>3,238</b>	<b>1,025</b>	<b>159</b>	<b>1,894</b>	<b>3,078</b>
<b>Dibrisiant</b>								
<b>Ar ddechrau'r flwyddyn</b>	<b>155</b>	<b>159</b>	<b>1,367</b>	<b>1,681</b>	<b>111</b>	<b>159</b>	<b>1,026</b>	<b>1,296</b>
Cost ar gyfer y flwyddyn	25	-	178	203	44	-	341	385
Gwaredu	-	(6)	-	(6)	-	-	-	-
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>180</b>	<b>153</b>	<b>1,545</b>	<b>1,878</b>	<b>155</b>	<b>159</b>	<b>1,367</b>	<b>1,681</b>
<b>Gwerth Llyfr Net</b>								
Ar ddiwedd y flwyddyn	845	-	515	<b>1,360</b>	870	-	527	<b>1,397</b>
Ar ddechrau'r flwyddyn	870	-	527	<b>1,397</b>	881	-	685	<b>1,566</b>

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**8. STOC**

	<b>2016</b>	<b>Aiiddatgan 2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Deunyddiau Uned Cynnal a Chadw	59	40
Eiddo ar Werth	-	25
Talebau Buddion Staff	1	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>60</b>	<b>66</b>

**9. DYLEDWYR**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Dyledwyr o fewn Un flwyddyn:</b>		
Ôl-ddyled Rhent a Thâl Gwasanaeth	948	1,405
Llai: Darpariaeth ar gyfer Dyled Drwg	(661)	(685)
	<b>287</b>	<b>720</b>
Benthyciadau i staff	-	1
Dyledwyr Eraill ac Ad-daliadau	1,024	2,476
Benthyciad Tir ar gyfer Tai	850	-
Goblygiad Trosglwyddo Stoc	13,257	9,065
<b>CYFANSWM</b>	<b>15,418</b>	<b>12,262</b>
<b>Dyledwyr taladwy ar ôl Un flwyddyn:</b>		
Goblygiad Trosglwyddo Stoc	75,344	88,601
<b>CYFANSWM</b>	<b>75,344</b>	<b>88,601</b>

**10. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Adneuon Banc</b>		
Cyfrifon Cadw Mynediad yn Syth	1,919	2,600
Cyfrif Banc Cyfredol ac Arian Parod wrth law	28	80
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,947</b>	<b>2,680</b>

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**11. CREDYDWYR : SYMIAU YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

	2016 £'000	Ailddatgan 2015 £'000
<b>Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Credydwy'r masnach	2,344	4,170
Croniadau ac incwm wedi ei ohirio	1,326	2,900
Incwm Rhent a Gwasanaeth wedi ei dderbyn ymlaen llaw	234	330
Grantiau wedi eu derbyn ond heb eu defnyddio	61	29
Arian wedi ei ddal ar ran tenantiaid	1	35
Amrywiol	20	21
Ad-daliadau Benthyciadau mewn blwyddyn neu lai	14,000	13,000
Goblygiad Trosglwyddo Stoc	13,257	9,065
<b>CYFANSWM</b>	<b>31,243</b>	<b>29,550</b>

**12. CREDYDWYR : SYMIAU YN DDYLEDUS MEWN MWY NA BLWYDDYN**

	2016 £'000	2015 £'000
<b>Benthyciadau ddim yn ad-daladwy drwy ran-daliadau:</b>		
Rhwng 1 a 2 flynedd	-	-
Rhwng 2 a 5 mlynedd	6,850	6,000
Dros 5 mlynedd	49,000	49,000
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>55,850</b>	<b>55,000</b>
<b>Credydwy'r Tymor Hir eraill:</b>		
Grantiau wedi eu derbyn ond heb eu defnyddio	2,656	1,998
Goblygiad Trosglwyddo Stoc	75,344	88,601
<b>CYFANSWM</b>	<b>133,850</b>	<b>145,599</b>

Caiff benthyciadau eu diogelu drwy dâl penodol ar eiddo a thir y gymdeithas. Mae'r benthyciadau yn ad-daladwy ar gyfraddau amrywiol ac mae disgwyl iddynt gael eu talu'n ôl rhwng 2018 a 2034.

Proffil cyfradd llog benthyciadau ar 31 Mawrth 2016 oedd:

	Cyfanswm £'000	Cyfradd Amrywiol £'000	Cyfradd Sefydlog £'000	Cyfradd Cyfartaledd Pwysol %	Cyfartaledd Pwysol cyfnod Blynyddoedd
Benthyciadau dyledus ar ôl > 1 mlynedd:	55,850	850	55,000	6.07	13.5

Ar 31 Mawrth 2016 roedd gan y gymdeithas gyfleusterau heb eu tynnu i lawr o £12.15m gyda banc Barclays.

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**13. DARPARIAETHAU**

	Cytundebau Cyfalaf £'000	Tâl Colli Gwaith i Weithwyr £'000	Cyfanswm £'000
<b>ar 1 Ebrill 2015</b>	<b>300</b>	<b>28</b>	<b>328</b>
Darpariaethau yn ystod y Flwyddyn	50	-	50
Darpariaethau wedi eu rhyddhau yn y Flwyddyn	(300)	-	(300)
<b>ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>50</b>	<b>28</b>	<b>78</b>

Mae amseriadau all-lif arian sy'n ymwneud a'r darpariaethau yma yn ansicr ond mae disgwyl iddynt ddigwydd yn y 12 mis nesaf.

**14. CYFALAF CYFRAN DDI-ECWITI**

	2016 £	2015 £
Cyfrannau o £1 yr un, wedi'u talu'n llawn a'u dyroddi ar pâr		
<b>Ar 1 Ebrill</b>	<b>48</b>	<b>49</b>
Cyfrannau wedi eu rhoi yn ystod y flwyddyn	2	4
Ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn	(1)	(5)
<b>Ar 31 Mawrth</b>	<b>49</b>	<b>48</b>

**15. YMRWYMIADAU CYFALAF**

	2016 £'000	2015 £'000
Gwariant cyfalaf sydd wedi ei gytundebau ond nad oes darpariaeth ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol	4,922	5,561
Gwariant cyfalaf sydd wedi ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli ond heb ei gytundebu eto	3,105	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>8,027</b>	<b>5,561</b>
	<b>2016 £'000</b>	<b>2015 £'000</b>
Ffynonellau ariannu disgwylidig:		
Cyfleusterau benthyg wedi eu hymrwymo	6,701	5,561
Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru	1,326	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>8,027</b>	<b>5,561</b>

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**16. PENSIWN**

Mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn:

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)**

Mae Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd yn gynllun budd wedi ei ddiffinio yn seiliedig ar bensiwn cyflog terfynol. Bu i rai gweithwyr y Gymdeithas gymryd rhan yn y cynllun cyn i'r trosglwyddo stoc ddigwydd ac felly cafodd asedau neu atebolrwydd sydd ynghlwm a'r unigolion hyn eu hadnabod ar y dyddiad trosglwyddo h.y. 12 Ebrill 2010. Fel rhan o'r gytundeb drosglwyddo, mae atebolrwydd am ran o'r ddyled sy'n ymwneud a'r gweithwyr hyn sy'n ymwneud a'r cyfnod cyn trosglwyddo yn disgyn ar Gyngor Gwynedd.

Mae'r enillion a cholledion sy'n cael eu hadnabod gan y Sefydliad felly yn ymwneud yn llwyr a'r cyfnod trosglwyddo.

Cafodd y prisiant diweddaraf ei wneud ar y 31 Mawrth 2013 ac mae wedi ei ddiweddarau gan actiwari annibynnol i'r cynllun i ystyried gofynion FRS 102 er mwyn asesu atebolrwydd y gronfa ar 31 Mawrth 2016. Caiff atebolrwydd ei brisio ar sail actiwari gan ddefnyddio'r dull uned sy'n cael ei ragdybio, sy'n asesu atebolrwydd yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio i'w gwerth presennol. Cyfraddau cyfraniadau'r Gymdeithas o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 oedd 16.4% (16.4% yn 2014/15) o dal pensiynadwy aelodau.

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari cymwys annibynnol wrth ddiweddarau'r prisiannau diweddaraf y gronfa ar gyfer diben FRS102 oedd:

<b>Disgwyliad Cyfartalog Bywyd yn 65 mlwydd oed</b>	<b>Dynion</b>	<b>Merched</b>
Pensiynwyr Presennol	22.0 mlynedd	24.0 mlynedd
Pensiynwyr y Dyfodol	24.4 mlynedd	26.6 mlynedd
	<b>% y flwyddyn</b>	<b>% y flwyddyn</b>
	<b>2016</b>	<b>2015</b>
Cyfradd Cynnydd Pensiwn	2.2%	2.5%
Cyfradd Cynnydd Cyflog	4.2%	4.4%
Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau	3.6%	3.3%
Cyfradd Disgownt	3.6%	3.3%

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

	% y flwyddyn	Gwerth ar y Farchnad	% y flwyddyn	Gwerth ar y Farchnad
	2016	2016	2015	2015
		£'000		£'000
<b>Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau</b>				
Ecwitiau	3.6	9,929	3.3	8,862
Bondiau	3.6	1,904	3.3	1,677
Eiddo	3.6	1,360	3.3	1,198
Arian Parod	3.6	408	3.3	240
		<b>13,601</b>		<b>11,977</b>

Cafodd y symiau canlynol eu mesur yn unol â gofynion FRS102:

	2016	2015
	£'000	£'000
Gwerth Teg o Asedau Cyflogwr	13,601	11,977
Gwerth Presennol 'Defined Benefit Obligation'	(14,797)	(14,813)
<b>Cyfanswm (Atebolrwydd) / Asedau y Cynllun</b>	<b>(1,196)</b>	<b>(2,836)</b>

Roedd symudiad yn y gweddill net fel â ganlyn:

	2016	2015
	£'000	Ailddatgan £'000
Cyfraniadau wedi eu Talu	992	1,009
Costau Gwasanaeth Presennol	(1,581)	(1,347)
Costau Gwasanaeth yn y Gorffennol	(14)	(15)
Costau Llog	(520)	(479)
Dychweliad disgwyliedig ar Asedau'r Cyflogwr	319	1,241
Cynnydd / (Colled) Actiwari	2,444	(2,375)
<b>Symudiad Net yn ystod y Flwyddyn</b>	<b>1,640</b>	<b>(1,966)</b>
	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Ased Net (Atebolrwydd) ar Gychwyn y Flwyddyn	(2,836)	(870)
Symudiad Net yn ystod y Flwyddyn	1,640	(1,966)
<b>Ased Net / (Atebolrwydd) ar ddiwedd y Flwyddyn</b>	<b>(1,196)</b>	<b>(2,836)</b>



**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (Social Housing Pension Scheme - SHPS)**

Agorodd y Gymdeithas Gynllun Cyfraniad Diffiniedig ym mis Mai 2014. Ar y 31 Mawrth 2016, roedd gan y gymdeithas 23 o aelodau yn cyfrannu iddo. Cyfanswm cyfraniadau y cyflogwr yn ystod y flwyddyn oedd £22,067.

Gan mai dim ond cynllun cyfraniad wedi ei ddiffinio y mae'r gymdeithas yn ei gweithredu, mai ei atebolwydd wedi ei gyfyngu i werth y cyfraniadau sydd wedi eu gwneud.

**17. TÂL CYFARWYDDWYR**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
Cyfanswm tâl wedi ei dalu neu dderbyn gan Gyfarwyddwyr nad ydynt yn weithredol a chyn Gyfarwyddwyr	-	-
Cyfanswm tâl wedi ei dalu neu dderbyn gan Gyfarwyddwyr gweithredol a chyn Gyfarwyddwyr	302,964	181,301
Cyfanswm tâl wedi ei dalu i'r Cyfarwyddwr a delir fwyaf ac eithrio cyfraniadau pensiwn:	113,322	112,200
Cyfanswm unrhyw iawndal wedi ei dalu i Gyfarwyddwyr a chyn Gyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn gyfrifo.	-	-
Cyfanswm swm pensiwn Cyfarwyddwr presennol a rhai blaenorol ac eithrio symiau yn daladwy o dan gynllun pensiwn wedi ei ariannu'n briodol	-	-
Cyfanswm unrhyw ystyriaeth sy'n daladwy neu a ddylid ei dderbyn gan drydydd parti am wneud ar gael gwasanaethau gan Gyfarwyddwr.	-	91,041

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o'r cynllun pensiwn. Mae pensiwn y Prif Weithredwr yn gynllun budd wedi ei ddiffinio wedi ei ariannu drwy gyfraniadau blynyddol gan y cyflogwr a'r gweithiwr. Nid oes yna unrhyw delerau gwell nac arbennig yn gymwys. Nid oes angen unrhyw drefniadau pensiwn ychwanegol.

Caiff Cyfarwyddwyr eu diffinio fel aelodau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr ac unrhyw un arall sy'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol neu gyfatebol.

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

**18. GWYBODAETH GWEITHWYR**

Nifer cyfartalog o bobl a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn wedi ei ddangos mewn oriau llawn amser (37 awr yr wythnos) yw:		
	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>Nifer</b>	<b>Nifer</b>
Staff Swyddfa	184	192
Gweithwyr Llaw	60	58
Wardeiniaid, gofalwyr a glanhawyr	7	8
<b>CYFANSWM</b>	<b>251</b>	<b>258</b>

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Cyflogau	6,936	7,075
Costau Yswiriant Gwladol	497	502
Costau Pensiwn	975	997
<b>CYFANSWM</b>	<b>8,408</b>	<b>8,574</b>

Nifer o bersonél oedd yn reolwyr lle oedd eu cyflog (h.y. gan gynnwys pensiwn) yn fwy na £50,000 yn ystod y cyfnod:

	<b>Nifer</b>
£80,000 i £90,000	2
£130,000 to £140,000	1

**19. PRYDLES AU GWEITHREDU**

Mae gan y gymdeithas eiddo, cerbydau ac offer swyddfa o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo. Ar 31 Mawrth 2016 roedd gan y Gymdeithas ymrwymiadau taliadau prydles minimwm yn y dyfodol fel y nodir isod:

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	<b>£'000</b>	<b>Ailddatgan</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Tir ac Adeiladau:</b>		
O fewn y flwyddyn nesaf	126	111
Yn yr ail i bumed flwyddyn	97	163
Mewn mwy na pum mlynedd	-	-
	<hr/>	<hr/>
	223	274
<b>Eraill:</b>		
O fewn y flwyddyn nesaf	232	274
Yn yr ail i bumed flwyddyn	327	545
Mewn mwy na pum mlynedd	-	-
	<hr/>	<hr/>
	559	819
	<hr/>	<hr/>
	<b>782</b>	<b>1,093</b>

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**  
**20. STATWS TRETHIANT**

Mae gan y Gymdeithas statws elusennol.

**21. EIDDO SY'N BERCHEN, YN CAEL EU RHEOLI A'U DATBLYGU GAN CCG**

	<b>31 Mawrth 2016</b>	<b>31 Mawrth 2015</b>
<b>Dan reolaeth ar ddiwedd y flwyddyn:</b>		
Tai	5,860	5,876
Tai Cefnogol	381	389
Is-gyfanswm	<b>6,241</b>	<b>6,265</b>
<b>Yn cael eu datblygu ar ddiwedd y flwyddyn</b>		
Cyfanswm	<b>6,274</b>	<b>6,283</b>

**22. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 4 Cynghorydd, 4 Tenant a 4 Aelod Annibynnol

Mae gan bob aelod sy'n denant gytundeb sicrwydd tenantiaeth wedi ei ddiogelu arferol ac ni allant ddefnyddio eu safle i gael unrhyw fantais. Ar y 31 Mawrth 2016 cyfanswm ôl-ddyledion aelodau tenantiaid oedd dim.

Caiff pob trafodyn gyda Cyngor Gwynedd eu gwneud yn hyd braich mewn telerau masnachol arferol ac ni allant defnyddio eu safle i gael unrhyw fantais.

**23. MABWYSIADU FRS 102 AM Y TRO CYNTAF**

Wrth fabwysiadu FRS 102 mae'r gymdeithas wedi ailddatgan y cymharoldebau. Dyma'r effaith ar gronfeydd:

		<b>Cronfeydd ar y dyddiad newid 01 Ebrill 2014 £'000</b>	<b>Gwarged / (diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2015 £'000</b>	<b>Cronfeydd ar 31 Mawrth 2015 £'000</b>
Fel nodwyd yn flaenorol o dan UK GAAP		31,658	3,608	35,266
Cynnydd yn y dibrisiant tai	a	-	(24)	(24)
Cynnydd amorteiddiad grantiau sy'n ymwneud a thai	b	-	24	24
Cynnwys cronriad tâl gwyliau	c	(81)	-	(81)
<b>Fel sydd wedi ei nodi yn unol â FRS102</b>		<b>31,577</b>	<b>3,608</b>	<b>35,185</b>

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**  
**DATANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2016**

- a, O dan FRS 102 rhaid i grant cyfalaf a oedd wedi ei dynnu yn flaenorol o gost asedau sefydlog gael ei drin fel credydwr gyda'r asedau sefydlog yn cael eu cario ar gost. Yr effaith, o gymharu â GAAP presennol y DU yw cynnydd i'r gost o gario eiddo tai gan greu cynnydd o £24mil yn y dibrisiant wrth symud i FRS102 a lleihad yn y gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o £24mil.
- b, O dan FRS102 rhaid i grant cyfalaf y llywodraeth a gafodd ei dynnu yn flaenorol o'r gost cario eiddo gael ei drin fel credydwr grant cyfalaf wedi ei ddargyfeirio a'i ryddhau i'r datganiad o incwm cynhwysfawr dros fywyd defnyddiol yr asedau cysylltiedig. Yr effaith o gymharu â GAAP presennol y DU yw cynnydd o £24mil mewn incwm a gaiff ei gydnabod wrth symud i FRS102, a £24mil o gynnydd yn y gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015.
- c, O dan FRS102 rhaid i gost hawl heb ei ddefnyddio a buddion gweithiwr yn y byr dymor gael ei fesur a'i gydnabod yn y cyfnod adrodd. Yr effaith yw bod gwyliau sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei gydnabod fel cronïad ar y dyddiad adrodd. Golygodd hyn leihad o £81mil yn y cronfeydd wrth symud i FRS102 a lleihad yn y gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o £6mil.